Gweledigaeth rheolaeth tir cynaliadwy dros Gymru

Gorffennaf 2017

Cyswllt Amgylchedd Cymru
Wales Environment Link



Mae ein gweledigaeth yn cynnwys Cymru sy'n rheoli ei thir yn gynaliadwy, mewn ffyrdd sy'n sicrhau buddion i bobl, yr amgylchedd a byd natur yn ogystal â dyfodol economaidd i reolwyr tir, wrth gydnabod y cysylltiadau uniongyrchol rhwng iechyd yr amgylchedd ac iechyd cymdeithas.

Yn ogystal â chynhyrchion fel bwyd a phren, mae arnom angen amgylchedd naturiol ffyniannus sy'n llawn o fywyd gwyllt i ddarparu gwasanaethau fel dŵr glan, pridd iach, atal llifogydd, cynnal carbon, a'r buddion i'n lles a sicrheir drwy gyfrwng cyswllt â byd natur. Yn eu tro, fe all y gwasanaethau ecosystem yma chwarae rôl allweddol mewn cefnogi economi wledig ffyniannus, pe bai buddsoddiad yn cael ei wneud nawr mewn adfer byd natur.

Daw llawer o'r rheolau sy'n llywio'r ffordd yr ydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol o ddeddfwriaeth yr UE, sydd wedi bod yn beth da i amgylchedd y DU. Ein dymuniad yw cadw'r deddfau hyn er mwyn creu sail gadarn ar gyfer adeiladu a gweithio tuag at safonau amgylcheddol sy'n gryfach nad ydyn nhw nawr.

Er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i amgylchedd Cymru, a fydd yn fuddiol i holl bobl Cymru, credwn fod rhaid i ddefnydd a rheolaeth tir yn y dyfodol sicrhau budd ehangach i'r cyhoedd a chanlyniadau cynaliadwy.

Beth mae'n rhaid i reolaeth tir yn y dyfodol yng Nghymru ei wireddu?

Ecosystemau wedi eu hadfer sy'n gweithredu'n dda a bioamrywiaeth ffyniannus
Cytundeb rheolaeth tir cynaliadwy newydd sy'n darparu anogaeth, arweiniad a hyfforddiant i alluogi adferiad byd natur, i gydnabod y budd ehangach i'r cyhoedd a gwireddu rheolaeth gynaliadwy o'n hadnoddau naturiol.

Diet cynaliadwy a chyfartaledd bwyd
Polisïau gwell a mwy unol ar fwyd a ffermio, rheoli adnoddau ac iechyd cyhoeddus, sy'n gwella mynediad at fwyd da, sy'n lleihau gwastraff bwyd ac sy'n gwarchod yr adnoddau naturiol y mae cynhyrchiant yn dibynnu arnyn nhw.

Gweithredu'n ôl mannau penodol er mwyn dathlu a chynnal ein tirluniau nodweddiadol
Sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng harneisio ynni adnewyddadwy a gwarchod ein tirluniau a'n bywyd gwyllt gwerthfawr, wrth gydnabod y cysylltiadau rhwng pobl a lleoedd.

Rheolaeth tir integredig gyda gofynion cynaliadwy cryf ledled pob sector
Yr un gofynion dros gynaladwyedd a'r un cyfle i dirfeddianwyr ym mhob sector rheolaeth tir, gan ddarparu tegwch i reolwyr tir a gwytnwch i'r amgylchedd a chymdeithas.

Darparu mynediad rhagorol i'r cyhoedd
System hawliau tramwy well, wedi ei chynnal yn dda a hygyrch, a hawliau mynediad agored, ledled Cymru, fel bod modd i bawb fwynhau mynediad i fyd natur.

Cefnogaeth i weithlu medrus sy'n cael ei werthfawrogi
Mae'n rhaid i reolwyr tir gael mynediad i hyfforddiant i gynnal eu gwybodaeth a'u medrau a bod yn fwy mentrus, a'u galluogi i elwa'n ariannol o farchnadoedd newydd sy'n hyrwyddo budd ehangach i'r cyhoedd.

Gwarchod ein treftadaeth naturiol ac adeiledig, a safleoedd archeolegol
Cydweithio â'n treftadaeth, o gestyll a safleoedd archeolegol i gloddiau cerrig sych a choed hynafol, wrth ailgyflwyno medrau a chrefftau traddodiadol sy'n cydweithio â'r amgylchedd naturiol.

Marchnadoedd newydd arloesol, nwyddau sydd â gwerth ychwanegol a chadwyni cyflenwi cydweithredol
Mae angen dulliau economaidd o weithredu, systemau a mecanweithiau marchnad o'r newydd i sicrhau budd i'r cyhoedd o reolaeth gynaliadwy, gyda buddsoddiad gan y Llywodraeth, diwydiant, cymunedau a chorfforaethau.

Dylid rheoli tir drwy gyfrwng dulliau sy'n lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr a chynyddu crynhoad carbon, ee drwy gynyddu gorchudd coedlannau brodorol cynaliadwy neu adfer mawnogydd.

Busnesau gwledig llwyddiannus sy'n cefnogi twristiaeth gynaliadwy
Cymru sy'n enwog ledled y DU ac yn rhyngwladol am ei hamgylchedd o ansawdd uchel, ei bywyd gwyllt cyfoethog, ei hasedau treftadaeth a'i chynigion eithriadol i dwristiaid.

Afonydd Cymru
Caring for Welsh Rivers

amphibian and reptile conservation

Bumblebee Conservation Trust

Bat Conservation Trust

BMC
Cyngor Mynydda Prydain

buglife Cymru

Butterfly Conservation Wales
Gwarchod Gloynnod Byw Cymru

YMDDIRIEDOLAETHAU natur CYMRU
WILDLIFE TRUSTS WALES

Freshwater Habitats Trust

CBA
Cyngor Archaeoleg Brydeinig
WALES CYMRU
Council for British Archaeology

Campaign for National Parks
Keeping beautiful places safe

Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol
Cadw mannau prydferth yn ddiogel

COED CADW WOODLAND TRUST

yha

SALMON & TROUT CONSERVATION CYMRU

YMDDIRIEDOLAETH CWM ELAN
ELAN VALLEY TRUST

marine conservation society

cadwch keep gymrun wales daclus tidy

Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust

Open Spaces Society

WHALE AND DOLPHIN CONSERVATION
WDC

Plantlife

rspb yn rhoi cartref i fyd natur giving nature a home

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society

UKELA
UK ENVIRONMENTAL LAW ASSOCIATION

WWF

The Vincent Wildlife Trust

Lluniau gan: cardwenynen fain, © Dave Goulson, dôl flodau gwyllt, © rspb-images.com

Beth rydym yn dymuno i Lywodraeth Cymru ei wneud

Mae cytundeb cynyddol bod rhaid i egwyddorion cynaladwyedd fod yn berthnasol i reolaeth tir drwyddo draw er mwyn sicrhau'r dyfodol gorau i Gymru. Dim ond ar gyfer gwireddu buddion i'r cyhoedd y dylid defnyddio arian cyhoeddus. Rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ddilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy a rheolaeth adnoddau naturiol, sydd bellach yn rhan hanfodol o gyfraith Cymru, i ddatblygu polisi rheolaeth tir integredig a chynaliadwy newydd dros Gymru er mwyn darparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Wrth weithio o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, dylai polisi unrhyw Lywodraeth Cymru newydd:

- gefnogi **Cymru fwy gwydn** drwy flaenoriaethu targedau tymor hir i arafu a gwrthdroi colledion mewn rhywogaethau a chynefinoedd, ac adfer ecosystemau gweithredol sy'n gallu addasu i effeithiau newid hinsawdd
- gefnogi **Cymru fwy cyfartal** wrth gyflwyno gofynion dros gynaladwyedd yn hafal ledled pob sector tir
- gefnogi **economi carbon isel a chyfrifoldeb byd-eang** drwy annog a galluogi pob sector defnydd tir i leihau eu hallyriadau o nwyon tŷ gwydr
- gefnogi **Cymru iachach** drwy ddarparu mynediad rhagorol i'r cyhoedd i gefn gwlad a hyrwyddo diet iach
- dyfeisio dulliau o annog rheolwyr tir i wireddu amcanion a nodau'r polisi hwn, drwy hyfforddiant a buddsoddi mewn mentrau arloesol
- gefnogi **cymunedau cyfoethog, gwydn a chydlynol** drwy ddefnyddio dulliau o weithredu polisi rheolaeth tir sy'n benodol i leoedd, drwy hyrwyddo busnesau gwledig cynaliadwy a thrwy ddarparu cefnogaeth ariannol a hyfforddiant i alluogi rheolwyr tir i fod yn fwy mentrus a newid i farchnadoedd sy'n fuddiol i gymdeithas
- gefnogi **diwylliant gwledig Cymru** wrth ddathlu a chynnal ei thirluniau nodweddiadol a'i hasedau treftadaeth a hyrwyddo, lle bod hynny'n briodol, atgyfodiad medrau a chrefftau rheolaeth tir traddodiadol
- fonitro ac adrodd canlyniadau'n rheolaidd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhwydwaith o Gyrff amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth Anllywodraethol Cymru, y rhan fwyaf yn gweithio ledled Cymru, yw **Cyswllt Amgylchedd Cymru (y Cyswllt)**. Yn gorff rhyngol sy'n cael dyledus barch, mae'r Cyswllt yn cysylltu'r llywodraeth gyda'r sector amgylcheddol anllywodraethol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw amgylchedd a chefn gwlad iach a reolir yn gynaliadwy ac sy'n gwarchod ei threftadaeth fel bo pobl Cymru a chenedlaethau'r dyfodol yn gallu ffynnu.

Mae'r datganiad safbwynt yma'n cynrychioli barn gonsensws grŵp o aelodau'r Cyswllt sy'n gweithio yn y maes arbenigol hwn.